

# newyddlen

Gwasanaethau Anabledd

Gwanwyn 2016



## Beth yw Cydgyhyrchu beth bynnag?

“Nid gair yn unig yw cydgyhyrchu, nid cysyniad yn unig, mae’n golygu fod meddyliau’n dod at ei gilydd i ddod o hyd i ddatrysiad a rennir. Yn ymarferol, mae’n golygu ymgynghori â gwasanaethau a phobl sy’n eu defnyddio a chydweithio o ddechrau i ddiwedd unrhyw brosiect sy’n effeithio arnynt”

Think Local Act Personal (2011).

## Cydgyhyrchu: y ffordd tuag at newid Ble ddechreuodd y cyfan...

Yn 2012 cyhoeddodd y Llywodraeth Genedlaethol fod argyfwng ar y gorwel i’r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Ystyriwyd y sefyllfa’n anghynaliadwy a chefnogwyd yr angen i greu newid ar raddfa eang. Ar y pryd mynwyd fod angen pendant i drawsffurfio’r ffordd yr oedd awdurdodau lleol yn darparu a chomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau fod cymorth i bobl sy’n agored i niwed yn gallu parhau yn y dyfodol.

Yn 2014 dechreuodd Llywodraeth Cymru ei siwrnai tuag at ddiwygiad mawr mewn gofal cymdeithasol a chyflwynwyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Nod y ddeddfwriaeth newydd hon yw sicrhau fod gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu harfogi’n well i ddiwallu anghenion cymunedau lleol a’u bod modd eu cynnal yn yr hirdymor. Fel rhan o’r ymdrech hon mae’r Ddeddf newydd yn dweud y “Dylai Awdurdodau Lleol asesu a sicrhau fod gwasanaethau nid yn unig yn darparu ar gyfer yr anghenion a nodwyd, ond yn chwilio am y rheiny sy’n darparu gwerth ychwanegol hefyd”.



Mae'r Ddeddf yn mynd ymlaen i ddatgan y dylai Awdurdodau Lleol "wneud hyn mewn amryw o ffyrdd, ond bydd agwedd sy'n seiliedig ar egwyddorion cydgynhyrchu'n hanfodol er mwyn cyflawni hyn". Ers i'r Ddeddf gael ei phasio mae Cyngor Sir y Fflint wedi dechrau ar ei daith ei hun tuag at newid gan ddilyn y ddeddfwriaeth hon a dechrau drwy adolygu pob gwasanaeth a gomisiynir, gan gynnwys y rheiny a ddarperir i bob lag anabledau corfforol, anabledau dysgu a nam ar y synhwyrau ar hyn o bryd. Ein bwriad trwy wneud hynny yw sicrhau ein bod yn deall anghenion pobl yn Sir y Fflint a bod y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn addas i'r diben ac yn sicr ar gyfer y dyfodol.

Wrth drafod ein bwriadau, mynegodd lawer o bobl eu pryderon y byddai adolygiad o wasanaethau anabledd yn arwain at newid i'r gwasanaethau presennol a ddarperir, a'n hymateb ni yw hyn yw "Bydd". Mae newid yn bosibl ac mewn rhai meysydd mae newid yn gwbl angenrheidiol. Ond credwn yn gryf nad yw newid yn rhywbeth a wneir i bobl neu a wthir ar bobl, mae newid yn digwydd gyda phobl am y rhesymau cywir, a dyna pam fod Cyngor Sir y Fflint wedi defnyddio dull cydgynhyrchu wrth ddechrau'r adolygiad hwn a chydweithio â darparwyr a'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ar hyn o bryd yn Sir y Fflint i ystyried beth yw'r blaenoriaethau i bobl ag anabledau a pha wasanaethau sy'n ofynnol i gefnogi'r blaenoriaethau hyn.

"Mae hyn yn ymwneud â symud grym yn tydy? Dyna mae'r mudiad anabledd wedi'i ddysgu i ni am y ffordd y maent yn gweithredu. Wrth wraidd hyn mae mynd i'r afael â'r ffordd y mae'r grym yn cael ei ddsbarthu a'i weithredu rhwng dinasyddion sy'n defnyddio gwasanaethau a phobl sy'n eu darparu. Mae hyn yn ymwneud â democrateiddio'r ffordd y mae grym yn cael ei ddsbarthu ar draws y system."

"Mae'r berthynas gydgynhyrchu newydd wrth wraidd y diwylliant y mae'r Ddeddf hon yn anelu at ei greu. Felly, "Dim byd Amdanom Ni Hebom Ni". Credaf fod y slogan hwn yn rhan annatod o'r hyn y mae'r Ddeddf hon yn ceisio ei gyflawni".

Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Mark Drakeford



## CYDGYNHYRCHU: Y FFORDD TUAG AT NEWID

### Gwrando, dysgu a mynd amdani...

Rydych wedi clywed LLAWER iawn o sôn am Gydgyhyrchu! Rydym wedi rhoi diffiniad, wedi ei grybwyll sawl tro ac mae hyd yn oed yn rhan o'r teitl, ond beth ydym wedi bod yn ei wneud i weithio gyda pobl leol a'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau mewn gwirionedd?



Ym mis Chwefror 2015, buddsoddodd yr Awdurdod mewn offer a chymorth i gynorthwyo'r broses o gydgyhyrchu a sicrhau ei fod yn cael ei gynnal mewn modd proffesiynol, teg a chyfiawn.



Ym mis Mawrth ac Ebrill 2015 hysbyswyd darparwyr lleol o fwriad yr Awdurdod Lleol i sefydlu proses gydgyhyrchu er mwyn datblygu gwasanaethau ac y byddai canlyniad y datblygiad hwn yn arwain at ymarfer tendro.



Ym mis Ebrill 2015 gweithiodd yr Awdurdod Lleol gyda darparwyr presennol i nodi beth yw'r prif flaenoriaethau i bobl ag anableddau wrth fynd ymlaen a hynny mewn digwyddiad ar gyfer y gwasanaeth cyfan.



Ym mis Mai 2015 cynhaliodd yr Awdurdod Lleol ddigwyddiad arloesedd a gwahoddwyd darparwyr lleol a gwasanaethau ysbrydoledig o bob cwr o'r sir i gyfarfod a rhannu syniadau yngl n â sut wasanaethau y gallai Sir y Fflint eu darparu i bobl ag anableddau yn y dyfodol.



Ym mis Mehefin 2015 cynhaliodd yr Awdurdod Lleol ddigwyddiad agored i roi cyfle i bobl ag anableddau a darparwyr lleol bleidleisio dros flaenoriaethau pobl ag anableddau a pha syniadau newydd yr hoffent eu gweld yn Sir y Fflint.



Ar yr un pryd rydym yn ymwybodol na allai rhai pobl ag anableddau fynychu'r digwyddiad agored oherwydd natur eu hanabledd. Er mwyn sicrhau fod pobl yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu, aethom allan i ymgynghori â grwpiau bach o bobl a fynychodd gwasanaethau presennol a thrafodwyd syniadau a blaenoriaethau newydd â nhw.



Ym mis Awst/Medi 2015 aethom ati i adolygu'r holl adborth a'r wybodaeth a gasglwyd o'r digwyddiadau a'r ymgynghoriadau. Galluogodd y wybodaeth hon ni i ddeall beth oedd ei eisiau a'i angen ar bobl ag anableddau yn Sir y Fflint. Defnyddir y wybodaeth hon nawr fel sylfaen i ddylunio'n gwasanaeth, fodd bynnag er mwyn creu dyluniad a fyddai'n gweithio roeddem am gynnwys arbenigwyr yn y maes.



Ym mis Medi 2015, bu i ni gynhyrchu hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw (PIN) ar agor i bob darparwr. Roedd yr hysbysiad hwn yn rhoi amlinelliad yn seiliedig ar y ffurflen adborth yn ein digwyddiadau ac roedd yn gofyn i ddarparwyr ddweud wrthym sut y byddent yn datblygu gwasanaethau i bobl yn Sir y Fflint.



Ym mis Hydref 2015 bu i ni adolygu ymatebion y darparwyr i'r hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw. Bu i ni greu matrices gwerthuso eto'n defnyddio'r adborth o'n digwyddiadau cymunedol a darparwyr, bu i ni hefyd wahodd cynrychiolwyr o Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint a Gwasanaethau Corfforaethol i werthuso'r ymatebion gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau proses deg. Aethom ymlaen i ddethol y tri darparwr mwyaf addas a wnaeth argraff arnom gyda'u syniadau arloesol. Gwahoddwyd y darparwyr hyn i weithdy gyda'r awdurdod lleol i wneud gwaith pellach ar y dyluniadau i wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau.



Ym mis Rhagfyr 2015 mynychodd y tri darparwr weithdy dylunio, a'n galluogodd i weithio gyda'n gilydd i greu manyleb drafft ar gyfer gwasanaethau i bobl ag anableddau.



Ym mis Ionawr 2016 adroddodd yr Awdurdod Lleol am eim cynnydd yn y gwaith hwn i'r Pwyllgor Compact a'r Bwrdd Moderneiddio Gwasanaethau Cymdeithasol am wybodaeth a chyfleoedd i graffu ar y broses.



Ym mis Chwefror 2016 mae'r awdurdod lleol wedi creu gweledigaeth ddrafft ar gyfer Gwasanaethau Anabledd yn Sir y Fflint.



“Nid problemau i’w datrys yw pobl. Pobl ydynt â chryfderau ac asedau, sydd wedi llwyddo i ymdopi drwy gyfnodau hir yn eu bywydau eu hunain a phan fo angen help arnynt nawr, ein gwaith ni yw dechrau o’r cryfderau a’r asedau sydd ganddynt.”

Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol      Mark Drakeford

## Beth nesaf?

Trwy ddefnyddio’r wybodaeth yr ydym wedi’i chael gan ddarparwyr a phobl yn y gymuned, rydym bellach wedi datblygu glasbrint newydd ar gyfer Gwasanaethau Anabledd yn Sir y Fflint.

Bydd y Glasbrint yn amlinellu’r weledigaeth a’r syniadau a gyflwynwyd gan bobl ag anableddau a darparwyr a dyma fydd dechrau’r gwaith o ddylunio manylebau gwasanaeth newydd mewn gwahanol feysydd mewn gwasanaethau anabledd.

Y cam nesaf i ni fydd cael adborth gan y darparwyr yr ydym wedi bod yn gweithio â nhw ar ein drafft cyntaf.

Yna byddwn yn barod i roi gweithgor at ei gilydd i adolygu’r glasbrint ac i fod yn sail i’r dyluniad terfynol. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys Gofalwyr, darparwyr gwasanaeth a swyddogion y cyngor a fydd yn cydweithio i ddylunio model newydd ar gyfer Gwasanaethau Gofalwyr.

Ar ôl creu glasbrint drafft terfynol, byddwn yn parhau i weithio gyda Gofalwyr i ganfod pa ddarparwr gwasanaeth sydd â’r mwyaf i’w gynnig i bobl yn Sir y Fflint.

Ar ôl i’r darparwyr gwasanaeth cywir gael eu dethol byddwn yn gofyn i bobl ein helpu i wneud yn siŵr fod y gwasanaeth yn gweithio’n effeithiol ac yn ein helpu i fonitro a gwerthuso’r gwasanaeth.

## Amserlen:

Ebrill 2016:  
Glasbrint Gwasanaeth terfynol

Mai 2016:  
Datblygu manylebau drafft

Mehafin 2016  
Adolygu manylebau gyda’r gweithgor

Gorffennaf 2016:  
Dechrau tendro

Gorffennaf/Awst 2016:  
Gwerthuso cynigion gyda phanel o ddinasyddion.

Medi 2016: Dyfarnu contractau newydd.



Mae'r Awdurdod Lleol yn dal i fod yn gyfrifol am ddyletswyddau statudol cyffredinol. Bydd pob dinesydd cymwys yn dal i dderbyn asesiadau ac, os oes angen, gofal a chymorth, gan gynnwys mynediad at wybodaeth a chyngor penodol, offer a gwasanaethau adsefydlu sy'n diwallu anghenion pob unigolyn.

Y Gwasanaethau isod yw'r rheiny sy'n cefnogi dyletswyddau'r Awdurdod Lleol yn y gymuned ag sy'n darparu ymyrraeth gynnar ac atal, gwybodaeth a chyngor. Mae'r gwasanaethau hyn wedi'u seilio ar egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), ond yn bwysicach maent wedi'u datblygu'n gydgyhyrchiol gyda phobl a darparwyr.

Mynediad at Dechnoleg ac Addasiadau newydd

Rhaglen Cyfoethogi Cymunedau

Mynediad at wybodaeth a chyngor drwy fodelau allgymorth

Mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer cludiant

Datblygu marchnadle ar-lein

Rhwydwaith Gwirfoddolwyr a Chanolbwynt Cymunedol

Datblygu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol

Cynllun Bydi Teithio Lleol

Darparu offer 'gosod i fyny' mewn ardaloedd gwledig

Cynorthwyo mentrau cymunedol i dyfu

Cysylltu Cyfryngau Cymdeithasol â'r Porth Dewis

Darparu hyfforddiant, cymorth a gwybodaeth a chyngor.

Datblygu Cynllun Cyfnewid Offer

Datblygu Banc Amser

Cynorthwyo cymunedau i sefydlu offer cyfryngau cymdeithasol

Rhwydwaith Rhannu Ceir



Bydd y gwasanaethau a amlinellir uchod yn cefnogi rhwymedigaethau statudol yr awdurdod lleol, ond ni fyddant yn disodli'r angen am ddarpariaeth arbenigol.

Enghraifft o un o rwymedigaethau'r Awdurdod Lleol yw:

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 "rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau fod gwasanaethau a ddarperir i bobl ddall a byddar yn briodol a chydabod nad ydynt o reidrwydd yn gallu elwa o wasanaethau prif ffrwd neu'r gwasanaethau hynny a anelir yn bennaf at bobl ddall neu bobl fyddar sy'n gallu dibynnu ar eu synhwyrâu eraill. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau fod pobl sy'n ddall a byddar yn gallu cael mynediad at weithwyr cymorth un i un sydd wedi cael hyfforddiant penodol i helpu'r rheiny sydd wedi'u hasesu fel rhai sydd angen y cymorth hwn".

A bydd y Dyletswyddau Cyffredinol canlynol yn flociau adeiladu ar gyfer pob gwasanaeth gofal cymdeithasol:

## Dyletswyddau cyffredinol eraill



- Barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn
- Parchu urddas
- Cyfranogiad
- Nodweddion, diwylliant a chredoau



- Oedolion yn y sefyllfa orau i farnu eu lles eu hunain
- Hyrwyddo annibynnïaeth



- Rhoi magwraeth i'r plentyn gan deulu'r plentyn cyn belled a bo hynny'n gydnaws â lles y plentyn
- Barn, dymuniadau a theimladau'r rheiny sydd â chyfrifoldeb rhiant cyn belled a bo hynny'n ymarferol ac yn gydnaws â lles y plenty



## Ymunwch â'n gweithgor i ddatblygu'r Glasbrint ar gyfer Gwasanaethau Anabledd ymhellach ac i gyfweld â darparwyr posibl.

Os hoffech gyfle i ymuno â'n gweithgor i ddatblygu'r glasbrint ar gyfer Gwasanaethau Anabledd ymhellach, cysylltwch â Christy Jones yng Nghyngor Sir y Fflint: 01352 702509 neu [Christy.j.jones@flintshire.gov.uk](mailto:Christy.j.jones@flintshire.gov.uk).

Sylwch y bydd hyn yn golygu ymrwymo'ch amser eich hun i'r gr p. Gobeithiwn y bydd y gr p hwn yn parhau y tu hwnt i'r broses gomisiynu, a bydd angen i aelodau fynychu cyfarfodydd bob yn ail fis i gefnogi'r gwaith parhaus o Wella Gwasanaethau Anabledd. Bydd angen i chi allu trefnu'ch cludiant eich hun i gyrraedd y cyfarfodydd hyn.

Gall preswylwyr Sir y Fflint sydd ag anabledd, anabledd dysgu neu nam synhwyraidd fod yn aelodau o'r grŵp hwn cyn caffael gwasanaethau. Ar ôl i'r broses gaffael orffen, bydd modd i ddarparwyr fod yn aelodau hefyd.

(Sylwch y bydd nifer gyfyngedig o leoedd ar gael yn y gr p hwn. Mae'n bwysig fod unrhyw un sy'n gwneud cais yn teimlo y gallant gynrychioli barn pobl leol yn deg a bydd angen iddynt fod yn barod i fynd allan i ofyn am farn pobl ag anabledau i sicrhau fod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y cyfarfodydd hyn).

Diolch i chi am roi o'ch amser i ddarllen y newyddlen hon. Os hoffech gopi o'r newyddlen mewn fformat arall, cysylltwch â ni.

Christy J Jones  
Cyngor Sir y Fflint,  
Safle 4,  
Neuadd y Sir,  
Yr Wyddgrug,  
CH76NN.